WICIPEDIA

Swndaneg

Iaith yn perthyn i deulu'r ieithoedd Awstronesaidd ac is-deulu'r ieithoedd Malayo-Polynesaidd yw **Swndaneg** (*Basa Sunda*). Fe'i siaredir yn bennaf yng ngorllewin ynys Jawa yn Indonesia, yn yr ardal a adwaenid yn hanesyddol fel "Sunda". Mae tua 27 miliwn o siaradwyr i gyd. Mae'n perthyn yn agos i Jafaneg ac Indoneseg.

Ceir pedair prif dafodiaith: Banten, Bogor, Priangan a Cirebon. Ystyrir Priangan fel y ffurf fwyaf safonol. Ceir gwahanol ffurfiau ar yr iaith yn dibynnu ar statws cymdeithas cymharol y siaradwr a'r bobl y mae'n siarad a hwy.

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Swndaneg&oldid=1476687"

Newidiwyd y dudalen hon ddiwethaf ar 17 Mawrth 2013, am 23:23.

Mae testun y dudalen ar gael dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike; gall fod telerau ychwanegol perthnasol. Gweler Telerau Defnyddio'r Drwydded am fanylion pellach.